❖ Rhosyn y Nadolig

Ganwyd Baban yn y preseb
Pan oedd sêr y nos ar dân
A'r bugeiliaid ar y moelydd
Dan gyfaredd nefol gân.
Rhosyn Saron oedd ei enw,
Gwridog oedd, a theg o bryd,
Ef yw Rhosyn y Nadolig
A blannodd Duw yng ngardd ein byd.

Ond dwylo dynion a'i hysigodd,
Sarnwyd harddwch brau y rhos,
Gwreiddyn Jesse a erlidiwyd,
A chanol dydd fel hanner nos.
Hoelio'r rhosyn gyda'r ddraenen
I wywo'n swp ar frest y Groes;
Gwyn betalau, o dan felltith,
Yn ddiferion gwaed a droes.

Taflu'r tegwch bach toredig
I bridd y bedd mewn dieithr ardd;
Ond bywhau a wnaeth y blodyn
A blaguro eto'n hardd.
Codi ei ben at haul y Nefoedd,
Ac edrych fry â siriol wedd;
Rhosyn y Nadolig ydyw,
Y Rhosyn byw sy' n fwy na'r bedd!

℗ Cyhoeddiadau'r Gair www.ysgolsul.com